# Pwyllgor Adfywio

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Chwefror, 2016

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Mri. John Griffith, D R Hughes, Carwyn Jones, R.Meirion Jones,<br>R G Parry OBE a Alwyn Rowlands.<br><br>Mr. T. Victor Hughes – Cadeirydd Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn<br>Mr. T.Ll. Hughes – Is-gadeirydd Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn |
| **WRTH LAW:** | Y Trysorydd.<br><br>**Swyddogion o Gyngor Sir Ynys Môn (y cyfeirir atynt o hyn ymlaen wrth deitlau eu swyddi gyda CSYM)**<br><br>Prif Weithredwr Cynorthwyol (AM),<br>Rheolwr Gwasanaethau Cyfrifeg (BHO),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Mri. William T. Hughes, J. Arwel Roberts, Ieuan Williams. |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Dim |

---

**1** **ETHOL CADEIRYDD**

Ail-etholwyd Mr. Bob Parry OBE yn Gadeirydd.

**2** **ETHOL IS-GADEIRYDD**

Ail-etholwyd Mr. Derlwyn R. Hughes yn Is-gadeirydd.

**3** **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Datganodd Mr. R. Meirion Jones ddiddordeb personol a rhagfarnus mewn perthynas â cheisiadau grant gan Gwmni'r Frân Wen a'r Eisteddfod Genedlaethol a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar y ceisiadau hynny.

Datganodd Mr. T. Victor Hughes – Cadeirydd Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn – ddiddordeb personol a rhagfarnus yn y ceisiadau grant gan yr Eisteddfod Genedlaethol a Menter Gymdeithasol Llangefni a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar y ceisiadau hynny.

Dywedodd sawl aelod o'r Pwyllgor eu bod yn aelodau o Bwyllgorau Apêl Cyllid Eisteddfod leol yn eu cymunedau. Dywedodd y Trysorydd mai'r cyngor a gafwyd gan y Swyddog Monitro oedd y dylent ddatgan diddordeb ond y gallent gymryd rhan a phleidleisio.

**4** **CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r canlynol :-**

**"Dan Adran 100(A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar y sail y gallai olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A i'r Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm."**

## 5 CEISIADAU AM GRANTIAU MAWR 2016/17

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Trysorydd mewn perthynas â cheisiadau grant a dderbyniwyd gan bedwar sefydliad.

Dywedodd y Trysorydd fod Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn, yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Ionawr 2016, wedi penderfynu ariannu'r ymrwymiadau cyfredol o £660k a dyrannu hyd at £200k o adnoddau cyfalaf i ariannu ceisiadau am grantiau mawr. Nodwyd bod angen asesu pob cais yn unol â'r weithdrefn a gymeradwywyd gan yr Ymddiriedolaeth Elusennol ar 22 Medi 2015, a oedd ynghlwm fel Atodiad 1 i'r adroddiad, ac yn unol â'r meini prawf ychwanegol a gymeradwywyd gan yr Ymddiriedolaeth Elusennol ar 27 Ionawr 2016 fel a ganlyn:-

- **Cynaliadwyedd** – rhaid i'r ymgeisydd ddangos y gall y prosiect barhau heb gyllid grant pellach h.y. y gellir ariannu'r costau cyfalaf unwaith y bydd y prosiect yn weithredol yn achos grantiau cyfalaf ac y gall y prosiect barhau heb gymorth ychwanegol gan yr Ymddiriedolaeth yn achos grantiau refeniw
- **Budd** – rhaid i'r ymgeisydd ddangos sut bydd y prosiect o fudd i drigolion Ynys Môn;
- **Gwerthuso** – rhaid i'r ymgeisydd ddarparu manylion am y meini prawf llwyddiant ar gyfer y prosiect a sut y byddant yn cael eu mesur.

Cynhaliodd y Pwyllgor werthusiad manwl o'r pedwar cais a dderbyniwyd **a PHENDERFYNWYD:-**

- **Cefnogi, mewn egwyddor, y ceisiadau grant a dderbyniwyd gan Fenter Gymdeithasol Llangefni ac Eisteddfod Genedlaethol Cymru;**
- **Gwahodd cynrychiolwyr o Gwmni'r Frân Wen a Menter Iaith Môn i gyfarfod arbennig o'r Pwyllgor Adfywio i'r fynd i'r afael â materion a godwyd gan y Pwyllgor;**
- **Y bydd y Pwyllgor yn penderfynu ar lefel y dyraniad grant yn y cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor Adfywio sydd i'w gynnal ar 3 Mawrth, 2016.**

**Mr. Bob Parry OBE**
**Cadeirydd**